

## CYNLLUN GWEITHREDU CYNEFINOEDD

## HABITAT ACTION PLAN



Llan / Photo: Lizzie Wilberforce

### RHOSYDD

#### Disgrifiad / Ecology

Gelwir rhos hefyd yn borfa gorsiog ac mae'n gymysgedd o laswellt y gweunydd a brwyn gyda chlytiau o rug gwlyb, tyfiant bawlydd, glaswellt sych a phrysgoed. Fe'u canfyddir fel arfer mewn mannau sydd wedi'u draenio'n wael, gwaelodion dyffrynnoedd neu dir isel arall.

Mae ardal rosiog sydd mewn cyflwr da yn meddu ar dyfiant twmpathog a thyweirch byrrach o borfa, hesg a pherlyisiau. Mae hyn yn ffurfio clytwaith cymhleth o wawr gwyrdd a brown. Yn y gwanwyn a'r haf, mae blodau gwylltion yn ychwanegu at y lliwiau: mae clafrllys gwreidd-dan, llyisiau'r Forwyn, blodau'r brain, gwahanol degeirianau, trewyn porffor, distrewlys, briwydd y gors a thresglau yn gyffredin. Mae'r ehedydd a throed y barcud yn nythu ar y tyweirch byrion ac mae yno amrywiaeth dda o bryfed hefyd.

Mae'n hanfodol bod gwartheg a/neu ferlod yn pori er mwyn cynnal y cynefin arbennig hwn. Fel arfer, argymhellir pori'n ysgafn yn yr haf rhwng mis Mai a mis Medi.

### RHOS PASTURE / RHÔS

#### Description / Ecology

Rhos pasture, often known as marshy grassland, is a mixture of purple moor grass and rush pasture with patches of wet heath, mire vegetation, dry grassland and scrub. It is usually found in poorly drained areas, valley bottoms or other low lying land.

An area of Rhos pasture in good condition has both taller tussocky vegetation and shorter swards of grasses, sedges and herbs. This forms a complex patchwork of shades of green and brown. In the spring and summer displays of wildflowers add more colour: devil's-bit scabious, meadowsweet, ragged robin, various orchids, purple loosestrife, sneezewort, marsh bedstraw and tormentil are common. Skylarks and meadow pipits make their nests on the short turf and a great variety of insect life abounds.

Grazing by cattle and/or ponies is essential to maintain this special habitat. Light summer grazing between May and September is usually recommended.



Mae rhosydd Ceredigion yn gartref i rai rhywogaethau prin sydd i'w canfod yn y cynefin arbennig hwn: carwe troellog, ysgall y ddôl, iâr fach yr haf brith y gors, gwalchwyfyn gwenwynog ymyl gul, pry'r gannwyll dwy linell a gwas y neidr gwrymiog.

The Rhos pasture in Ceredigion is home to some rare species which are found in this special habitat; the whorled caraway and meadow thistle, the beautiful marsh fritillary butterfly, narrow-bordered bee hawkmoth, double-line moth and keeled skimmer dragonfly.

### Dosbarthiad

Cyfyngir y cynefin prin hwn o safbwynt rhyngwladol yn bennaf i ardaloedd lle y mae llawer o law yn disgyn yng ngorllewin Prydain ac mae'n digwydd ran fynychaf yn ne-orllewin Cymru, Dyfnaint, Cernyw a de-orllewin yr Alban. Mae tua 35,000ha yng Nghymru, sef tua hanner yr hyn sydd i'w ganfod ledled y Deyrnas Unedig.

Mae tua 12% o'r holl rosydd sydd yng Nghymru yn y sir hon, gan ymestyn dros 3,859ha. Dosberthir safleoedd sydd â llai na 5ha yn eang ledled y sir. Serch hynny, canolbwyntir safleoedd sy'n fwy na 5ha yn bennaf ar draws Canolbarth Ceredigion. Mae enghreifftiau mwy cyfoethog o ran rhywogaethau gyda phlanhigion fel ysgall y ddôl yn brin iawn ac o bwys cadwraethol arbennig.

### Ffactorau sy'n effeithio ar gynefin Ceredigion

- Mae rhy fach o bori a diffyg rheoli yn achosi i'r tyweirch cyfoethog o ran rhywogaethau fynd yn rhy drwchus a thwmpathog gyda strwythur gwael o ran tyfiant heb lawer o flodau. Mae'r prysgoed yn goresgyn yn y diwedd a cholli'r rhos.
- Mae pori gormodol yn diraddio'r cynefin ac yn achosi strwythur gwael o ran tyfiant a llai o flodau.
- Colli cynefin oherwydd gwelliannau amaethyddol sy'n cynnwys draenio, ailhadu, defnyddio plaladdwyr a throï tir.

### Beth sy'n cael ei wneud yn lleol?

- Bu Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn mapio dosbarthiad a helaethrwydd y tyfiant yng nghyd-destun rhosydd.



### Distribution

This internationally rare habitat is mainly confined to areas of high rainfall in western Britain and occurs most frequently in south-west Wales, Devon, Cornwall and south-west Scotland. In Wales there are about 35,000ha which is approximately 50% of the amount found throughout the UK.

The County has about 12% of all Rhos pastures occurring in Wales, extending over some 3859 hectares. Sites with less than 5ha are widely distributed throughout the County. However, sites larger than 5ha are mainly concentrated across mid-Ceredigion. The more species-

- Diogelir llawer o rosydd Ceredigion ar ffurfl Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac fe'u rheolir mewn modd cydymdeimladol drwy gyfrwng cytundebau rheoli.
- Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru yn rheoli chwe gwarchodfa gyda mannau rhosiog.
- Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn adfer standiau yn arbrofol sydd heb eu rheoli'n ddigonol a throi tir glaswellt amaethyddol sydd wedi'i wella yn ôl i fod yn rhos yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Rhos Llawr Cwrt. Mae Ymddiriedolaeth y Ddaear Ranedig yn gwneud gwaith tebyg ar Fferm Denmarc lle y maent yn darparu arddangosfeydd, hyfforddiant a chyngor i dirfeddiannwyr. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru hefyd yn ariannu'r broses o bori rhosydd mewn modd arbrofol i asesu ei adferiad.
- Sicrhawyd rheolaeth briodol ar gyfer ardal rosiog sylweddol, gan gynnwys gwneud hynny o dan gytundebau rheoli Tir Gofal presennol Ceredigion. Dylai rheoli mwy ar y broses o adfer a ehangu rhosydd o dan y cynllun hwn gyfrannu at dargedau rhosydd Cymru.

### Targedau

- Cynnal 3,859ha fan leiaf o ros ac atal mwy o ddiraddio ar y cynefin.
- Sicrhau rheoli cadwraethol priodol ar bob ardal rosiog sydd ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, gwarchodfeydd sydd heb fod ar safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a ffermydd a fydd o dan reolaeth cytundebau amaeth-amgylcheddol erbyn 2010. Dylai pob rhos sydd ar safleoedd dynodedig fod mewn cyflwr ffatriol erbyn 2015.
- Lle bo hynny'n ymarferol, ceisio cyfleoedd i adfer ac ehangu ardaloedd rhosiog ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, gwarchodfeydd sydd heb fod ar safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig a ffermydd sydd o dan reolaeth cytundebau amaeth-amgylcheddol (yn enwedig enghreifftiau cyfoethog o ran rhywogaethau fel ysgall y ddôl a safleoedd sy'n cynnal rhywogaethau prin fel brith y gors).
- Ehangu ardal y rhos drwy droi 5ha fan leiaf o gynefin amaethyddol sydd wedi'i wella yn rhos erbyn 2015.

### Pa gymorth y gallwch ei roi

- Os ydych yn berchen ar ardal rosiog (neu dir y credwch iddo fod yn rhos ar un adeg) ac yr hoffech gael mwy o wybodaeth am reoli cydymdeimladol,



rich examples with plants such as meadow thistle are very restricted and of particular conservation importance.

### Factors affecting the habitat Ceredigion

- Under grazing and lack of management results in the species rich sward becoming rank and tussocky with a poor vegetation structure and low floristic interest. Ultimately scrub invades and the Rhos pasture is lost.
- Overgrazing degrades the habitat and results in poor vegetation structure and reduced floristic interest.
- Loss of habitat arising from agricultural improvement including drainage, reseeding, use of fertilisers and cultivation.

### What is being done locally?

- The distribution and extent of the Rhos pasture vegetation communities have been mapped by the Countryside Council for Wales (CCW).
- Many of the Rhos pastures in Ceredigion are safeguarded as SSSIs and are sympathetically managed through management agreements.
- The Wildlife Trust of South & West Wales (WTSWW) manages six nature reserves with areas of Rhos.
- Experimental restoration of under managed stands and expansion by reversion of agriculturally improved grassland to Rhos pasture is being undertaken by CCW at Rhos Llawr Cwrt National Nature Reserve. Similar work is also being undertaken by the Shared Earth Trust at Denmark Farm, where they provide demonstrations, training and advice to other landowners. CCW is also funding the experimental grazing of other Rhos pastures to assess its recovery.
- Appropriate management has been secured for a significant area of Rhos pasture, including under current Tir Gofal management agreements in Ceredigion. Further restoration management and expansion of Rhos pasture achieved under this scheme should contribute to Welsh targets for Rhos pasture.

### Targets

- Maintain a minimum of 3859ha of Rhos pasture and prevent further degradation of habitat.
- Secure appropriate conservation management of all existing areas of Rhos pasture within SSSIs, non-SSSI nature reserves and farms managed under agri-environment agreements by 2010. By 2015 all Rhos pasture on designated sites should be in favourable condition.
- Where viable, seek opportunities to restore and expand areas of Rhos pasture within SSSIs, non-SSSI nature reserves and farms managed under agri-environment agreements (particularly species-rich examples with meadow thistle and sites supporting rare species such as marsh fritillaries).
- Expand the area of Rhos pasture by reverting at least 5ha of agriculturally improved habitat to Rhos by 2015.

### What you can do to help

- If you own an area of Rhos pasture (or land which you believe once to have been Rhos pasture) and would



Llan / Photo: David Woolley

cysylltwch ag Ymddiriedolaeth y Ddaear Ranedig (01570 493358 neu [info@shared-earth-trust.org.uk](mailto:info@shared-earth-trust.org.uk)) neu Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru, sef [e.foot@welshwildlife.org](mailto:e.foot@welshwildlife.org).

- Cofnodwch rywogaethau anghyffredin sy'n gysylltiedig â rhysoydd (e.e. brith y gors, gwalchwyfyn gwenwynog ymyl gul, pry'r gannwyll dwy linell, gwas y neidr gwrymiog, ysgall y ddôl a charwe troellog) a dweud wrth [biodiversity@ceredigion.gov.uk](mailto:biodiversity@ceredigion.gov.uk) am yr hyn a welsoch.

### Mwy o wybodaeth

- Mae'r tabl gweithredu ar rosydd yn rhoi manylion gweithredu lleol (ar gael oddi wrth y swyddog bioamrywiaeth), neu am ddadansoddiad o'r cynnydd a wneir ar y cynllun hwn, ymwelwch â thudalennau Ceredigion ar y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth [www.ukbap-reporting.org.uk](http://www.ukbap-reporting.org.uk)
- Cynllun Gweithredu ar frwyn a glaswellt y gweunydd yn y DU (ar gael ar [www.ukbap.org.uk](http://www.ukbap.org.uk))
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion (ar gael ar [www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk))
- Swyddog Bioamrywiaeth, Adain yr Arfordir a Chefn Gwlad, Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA. 01545 570881 ([biodiversity@ceredigion.gov.uk](mailto:biodiversity@ceredigion.gov.uk)).
- 'Glaswellt y Gweunydd a Rhysoydd', taflen Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol brith y gors (ar gael ar [www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk)).

### Partner arweiniol:

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru  
Dyddiad y cynllun: A Wheeler 2006



Llan / Photo: David Woolley



like further information on sympathetic management, please contact the Shared Earth Trust (01570 493358 or [info@shared-earth-trust.org.uk](mailto:info@shared-earth-trust.org.uk)) or the WTSWW at [e.foot@welshwildlife.org](mailto:e.foot@welshwildlife.org).

- Record uncommon species associated with Rhos pasture (e.g. marsh fritillary, narrow-bordered bee hawkmoth, double-line moth, keeled skimmer dragonfly, meadow thistle and whorled caraway) and report your sightings to [biodiversity@ceredigion.gov.uk](mailto:biodiversity@ceredigion.gov.uk).

### Further information

- Rhos pasture actions table provides details of local action (available from biodiversity officer) or for a break down of progress towards this plan, visit the Ceredigion pages on the Biodiversity Action Reporting System [www.ukbap-reporting.org.uk](http://www.ukbap-reporting.org.uk)
- UK Rush & Purple Moor Grass Action Plan (available on [www.ukbap.org.uk](http://www.ukbap.org.uk))
- Ceredigion Local Biodiversity Action Plan (available at [www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk))
- Biodiversity Officer, Coast & Countryside Section, Department of Environment Services and Housing, Ceredigion County Council, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA. 01545 570881 ([biodiversity@ceredigion.gov.uk](mailto:biodiversity@ceredigion.gov.uk)).
- 'Purple Moor Grass and Rush Pastures', CCW leaflet
- The marsh fritillary local biodiversity action plan (available at [www.ceredigion.gov.uk](http://www.ceredigion.gov.uk)).

### Lead partner:

Wildlife Trust of South and West Wales

**Date of plan:** A Wheeler 2006

